# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig: Ymgynghoriad ar rwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru.**

**Adran: Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol**

**Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol: Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**

**Dyddiad Dechrau: 31 Mawrth 2023**

**Cyfeiriad e-bost cyswllt: fire@gov.wales**

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (“Deddf 2013”) ddiwygiadau cynhwysfawr i holl bensiynau'r sector cyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Y nod oedd lleihau cost y pensiynau hyn i'r pwrs cyhoeddus, drwy gyflwyno cynlluniau newydd ag oedran pensiwn arferol uwch i bob gwas cyhoeddus, a darparu y câi buddion yn y cynlluniau hynny eu cyfrifo ar sail enillion ailbrisiedig cyfartaledd gyrfa (CARE) yn hytrach na chyflog terfynol. Roedd Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU neu (fel y bo'n briodol) y llywodraethau datganoledig lunio rheoliadau yn sefydlu cynlluniau newydd o'r fath a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2015, pan fyddai'r cynlluniau presennol yn cau, fel na allai'r aelodau gronni unrhyw bensiwn ynddynt mwyach. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (“Cynllun 2015”) wedi'i lywodraethu gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015[1] (“Rheoliadau 2015”), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

2. Roedd Adran 18 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i reoliadau eithrio categorïau penodol o weithwyr o'r gofyniad i ymuno â'r cynllun newydd a gadael iddynt aros yn eu cynllun presennol, y cyfeirir ato fel arall fel “diogelwch trosiannol”. Caniatawyd i'r aelodau hynny o gynlluniau a oedd agosaf at oedran ymddeol aros fel aelodau o'u cynlluniau presennol, a oedd ar y cyfan yn gynlluniau mwy buddiol, am weddill eu gyrfa. Felly, darparodd Rheoliadau 2015 y byddai unrhyw un a oedd yn aelod actif o gynllun ar 1 Ebrill 2012 ac yn 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwnnw yn aros yn ei gynllun blaenorol yn barhaol (“diogelwch llawn”); ac y byddai unrhyw aelod actif o gynllun rhwng 41 a 44 oed ar y dyddiad hwnnw yn trosglwyddo'n raddol i'r cynllun newydd dros gyfnod o bum mlynedd o 2015 ("diogelwch taprog").

3. Daeth y dull a amlinellir uchod yn destun her gyfreithiol yn achosion <u>McCloud ac eraill v Yr Arglwydd Ganghellor ac un arall</u> a <u>Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill</u>. Roedd yr hawlwyr yn dadlau bod y polisi yn gwahaniaethu mewn ffordd anghyfreithlon ac uniongyrchol ar sail oedran (ac yn achos <u>Sargeant</u>, yn gwahaniaethu mewn ffordd anuniongyrchol ar sail rhywedd a hil). Dyfarnodd y Llys Apêl, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, fod y diogelwch trosiannol ar sail oedran fel y'i gweithredwyd yn anghyfreithlon. Cyflwynwyd Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ym mis Mawrth 2022 i ddarparu sylfaen statudol ar gyfer rhwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. O ganlyniad i ddarpariaethau'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyfrifol newid rheolau cynlluniau pensiwn. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cyfrifol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru, wneud dwy gyfres o reoliadau mewn perthynas â'r rhwymedi hwn.

4. Diben Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 a gyflwynwyd gerbron y Senedd ar 22 Mawrth, oedd cau'r cynlluniau etifeddol i bob aelod o 1 Ebrill 2022. Cafodd yr holl aelodau a oedd yn weddill eu trosglwyddo i gynllun 2015, a thrwy hynny, ddileu unrhyw achosion o wahaniaethu a fyddai'n parhau o'r dyddiad hwnnw.

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ail gyfres o Reoliadau sy'n cynnig gwneud y canlynol:-

- Dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi, gan gynnwys (os byddant am wneud hynny) aelodau yr effeithir arnynt sydd wedi optio allan o fod yn aelod o'r cynllun.

- Sefydlu'r dulliau dewis (i) y gall aelodau yr effeithir arnynt eu defnyddio, ar adeg ymddeol, i ddewis y cynllun sy'n gymwys i'w gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi; a (ii) y gall yr aelodau hynny yr effeithir arnynt sydd eisoes wedi ymddeol eu defnyddio i wneud dewis o'r fath ar unwaith.

---

[1] OS 2015 rhif 622 / W50

- Gwneud darpariaeth ar gyfer y canlyniadau sy'n deillio o ddychwelyd aelodau i'w cynlluniau etifeddol a'r dulliau dewis uchod, er mwyn sicrhau bod rheolau'r cynllun priodol yn gymwys i hawliau, buddion a chyfraniadau pensiwn am gyfnod y rhwymedi.

6. Datblygwyd y cynigion drwy ymgynghori â Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru, y mae ei aelodau yn cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r pedwar undeb cydnabyddedig i ddiffoddwyr tân a chyrff cynrychioliadol.

7. Caiff pensiynau diffoddwyr tân eu cyllido drwy gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion, ynghyd â grant atodol gan y Trysorlys. Mae effaith y newidiadau hyn yn debygol o gynyddu gwerth pensiynau llawer o'r aelodau yr effeithir arnynt; ond mae hefyd yn debygol o gynyddu'r swm o arian y bydd angen ei godi o bob un o'r ffynonellau cyllido hyn. Bydd graddau'r cynnydd hwnnw yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir gan aelodau unigol y mae'r cynigion hyn yn caniatáu iddynt eu gwneud.

## Casgliad

### 1. Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i ddatblygu?

Mae'r cynnig yn deillio o achos ymgyfreitha llwyddiannus gan aelodau Undeb y Brigadau Tân, yn honni eu bod wedi profi achos o wahaniaethu ar sail oedran o ystyried y driniaeth well a gafodd eu cydweithwyr hŷn yn 2015. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gan y Trysorlys ar y polisi sylfaenol eisoes yn ystod hydref 2020[2], a thrafodwyd y cynigion sawl gwaith gan Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru (sy'n cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r pedwar undeb cydnabyddedig i ddiffoddwyr tân a chyrff cynrychioliadol).

### Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Lluniwyd y diwygiadau arfaethedig er mwyn cywiro ac unioni'r achosion o wahaniaethu ar sail oedran a nodwyd gan y llysoedd. Credwn eu bod yn gwneud hynny, ac mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar bobl oherwydd eu hoedran neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Rydym wedi bod yn arbennig o ofalus wrth geisio sicrhau na roddir hawliau i aelodau yr effeithir arnynt nad ydynt ar gael i aelodau eraill y cynlluniau, gan y gallai hynny arwain at honiadau newydd o wahaniaethu ar sail oedran.

### Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ofynnol gan ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn dileu achosion o wahaniaethu ar sail oedran, nid oes unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad. Oherwydd natur dechnegol y diwygiadau, a'r nifer cyfyngedig o bobl yr effeithir arnynt gan y newidiadau (mae'r cynigion yn gyfyngedig i ddiffoddwyr tân a gyflogwyd gan y gwasanaeth tân ac achub ar 1 Ebrill 2012 a hefyd ar 1 Ebrill 2015), mae'r cyfraniad tuag at yr amcanion neu'r nodau llesiant, neu at amcanion polisi ehangach, yn gymharol gyfyngedig. Serch hynny, mae dileu achosion o wahaniaethu ar sail oedran yn y cynllun pensiwn yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal. Bydd y cynigion yn cael effaith tymor hir ar ddiffoddwyr tân cymwys gan y bydd y newidiadau yn newid

[2] https://www.gov.uk/government/consultations/public-service-pension-schemes-consultation-changes-to-the-transitional-arrangements-to-the-2015-schemes

eu hawliau pensiwn galwedigaethol tymor hir. Datblygwyd y cynigion ar y cyd â chyflogwyr diffoddwyr tân a chynrychiolwyr cyflogeion.

## Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae effeithiau'r cynigion eisoes yn hysbys, ac mae eu hangen er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth sylfaenol nad yw wedi'i datganoli a dyfarniad y Llys Apêl. Mater i'r Trysorlys a Senedd y DU fyddai unrhyw newidiadau i'r polisi sylfaenol. Er na fydd unrhyw waith monitro ffurfiol, bydd effaith y rhwymedi yn parhau i gael ei thrafod gan Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru lle y bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion yn cael y cyfle i godi materion sy'n ymwneud â'r rheoliadau eu hunain a'r trefniadau ymarferol ar gyfer eu rhoi ar waith.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron WG46471 ISBN Digidol 978-1-80535-687-5